Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Deintyddfa Benllech
# Dyddiad y gweithgarwch: 29 Medi 2022

Dyddiad cyhoeddi: 17 Tachwedd 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80535-044-6

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ddeintyddfa Benllech, Gwynedd fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a gynigir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mae'n darparu apwyntiadau deintyddol y GIG i gleifion ledled Gogledd Cymru.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal y GIG 2015.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae gwiriadau ansawdd yn ein galluogi i ystyried sut mae'r gwasanaethau yn cyrraedd y safonau perthnasol mewn ffordd ystwyth, gan ein galluogi i roi cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithredu'r gwasanaethau mewn ffordd ddiogel. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r prif ddeintydd a rheolwr y practis ar 29 Medi 2022 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith sy'n cynnal safonau atal a rheoli heintiau ac yn diogelu cleifion, staff ac ymwelwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut rydych yn sicrhau bod y practis yn cynnal ansawdd o ran gofal cleifion ac o ran cyflenwi gwasanaethau?
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?

# Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Gwnaethom adolygu'r asesiad risg amgylcheddol diweddaraf a'r camau gweithredu.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Nododd rheolwr y practis fod y tair deintyddfa yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol[1] a bod unedau cymorth anadlu mecanyddol wedi'u gosod ym mhob deintyddfa er mwyn hwyluso'r gwaith o gael gwared ar aer halogedig. Roedd y deintyddfeydd wedi cael eu tacluso a dim ond yr offer oedd ei angen ar gyfer pob triniaeth oedd wedi'u gadael yn yr ystafell. Roedd pob deintyddfa wedi cael ei huwchraddio'n ddiweddar drwy osod gorchuddion wal y gellid eu sychu'n lân a lloriau newydd hawdd eu glanhau.

Disgrifiodd y prif ddeintydd raglen adnewyddu ddiweddar a wnaeth ganolbwyntio ar ddiogelwch a mynediad cleifion. Cafodd drws trothwy isel a ramp a desg lefel isel yn y dderbynfa eu gosod er mwyn gwella mynediad ymwelwyr a staff i'r ddeintyddfa. Roedd y practis ar y llawr gwaelod yn gwbl hygyrch i bobl a oedd yn defnyddio cadair olwyn.

Disgrifiwyd system cofnodion cleifion newydd lle roedd cleifion yn defnyddio iPad a dolenni digidol i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u hanes meddygol, gan ddileu'r angen am ffurflenni papur. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi gwella effeithlonrwydd a chawsom sicrwydd fod cleifion oedrannus ac agored i niwed yn cael cymorth i gwblhau gwybodaeth yn ddigidol yn y ddeintyddfa.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg wedi'u cynnal ar gyfer yr holl newidiadau i amgylchedd y ddeintyddfa a gwelsom asesiad risg manwl wedi'i ddyddio a oedd yn cynnwys camau gweithredu ac amserlenni.

Cadarnhawyd o ganlyniad i'r newidiadau a'r gwelliannau i'r amgylchedd fod mwy o apwyntiadau ar gael i gleifion oherwydd gwelliannau effeithlonrwydd a bod anghenion mynediad cleifion yn cael eu diwallu.

[1] Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP), a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef o haint a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod arwyddion Cymraeg a Saesneg yn cael eu harddangos yn y practis a dywedwyd wrthym fod tri aelod o staff yn siarad Cymraeg yn y practis. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod cleifion o Wcráin yn derbyn gofal deintyddol yn neintyddfa Benllech a bod staff yn defnyddio llinell gyfieithu i gyfathrebu pan fo angen.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Copi o'r archwiliad rheoli heintiau a dihalogi diweddaraf a chynllun gweithredu i ymdrin ag unrhyw feysydd i'w gwella.
- Polisi Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol
- Polisi a chanllawiau COVID-19
- Polisi glanhau
- Amserlenni glanhau ar gyfer yr wythnos flaenorol
- Cofnodion o wiriadau dyddiol o awtoclafau
- Gweithdrefn glanhau â llaw.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Edrychwyd ar yr archwiliad a'r cynllun gweithredu diweddaraf ar reoli heintiau a dihalogi, dyddiedig 12 Mai 2022. Dangosodd fod y practis wedi ymdrin â'r holl feysydd i'w gwella a nodwyd gan yr archwiliad.

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth o sawl polisi a oedd yn canolbwyntio ar atal a rheoli heintiau, gan gynnwys y polisi Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol, polisi glanhau, gweithdrefn glanhau â llaw a pholisi a chanllawiau COVID-19. Roedd pob polisi wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ym mis Mai 2022, roeddent yn cynnwys nodau, canllawiau ac arferion gorau. Roeddent wedi'u dyddio, eu llofnodi ac roeddent yn cynnwys dyddiad adolygu.

Gwnaethom edrych ar gofnodion a gwblhawyd ar gyfer dihalogi offer a chyfarpar deintyddol dros y bythefnos ddiwethaf ac roedd popeth mewn trefn.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael diweddariadau COVID-19 rheolaidd drwy gyfarfodydd tîm, WhatsApp a negeseuon e-bost. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod gwybodaeth wedi'i diweddaru hefyd ar gael i bob aelod o'r staff mewn ffolder yn y practis. Drwy gyfathrebu'n rheolaidd, sicrhawyd bod pawb wedi cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol a bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar gyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg[2] y cyfarpar. Roedd posteri a siartiau llif wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r practis er mwyn sicrhau bod y staff yn gymwys ac yn hyderus i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut maent yn rheoli eu gwasanaethau er mwyn helpu i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel. Gwnaethom ystyried a oedd y trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisïau / gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom gopi o'r daflen wybodaeth i gleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir.

Disgrifiodd rheolwr y practis y broses a oedd ar waith i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw ddigwyddiadau yn cael eu cofnodi a'u trafod ar yr un diwrnod, ac wedyn y byddai'r asiantaethau priodol yn cael eu hysbysu amdanynt.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol gan gynnwys dadebru cardio-anadlol, atal a rheoli heintiau, diogelu a hyfforddiant tân. Esboniodd rheolwr y practis y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol, ac roedd y staff yn defnyddio pecynnau hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant wyneb-yn-wyneb o hyd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedwyd wrthym mai nod y practis oedd gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y dogfennau archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad, a oedd yn cynnwys archwiliad o ansawdd radiograffau ac archwiliad o gardiau

[2] Gwisgo - rhoi cyfarpar diogelu personol (PPE) ymlaen; Diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ffwrdd

cofnodion. Roedd dyddiad wedi'i nodi ar yr adroddiadau archwilio, roedd camau gweithredu yn cael eu nodi ac roedd themâu yn cael eu monitro.

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth o wiriadau rheolaidd o gyfarpar a meddyginiaethau brys a sut roeddent yn cael eu storio. Gwnaethom edrych ar y gwaith i fonitro tymheredd yr oergell ac ar restrau gwirio wedi'u cwblhau ar gyfer cyfarpar a meddyginiaethau brys. Roedd y dogfennau a'r prosesau hyn mewn trefn.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd

- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Cynllun Gwella Ar Unwaith

Lleoliad: Deintyddfa Benllech, Gwynedd

Dyddiad y gweithgarwch: 29 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Nid oes unrhyw welliannau ar unwaith yn ofynnol.** | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad: Deintyddfa Benllech, Gwynedd

Dyddiad y gweithgarwch: 29 Medi 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oes unrhyw welliannau ar unwaith yn ofynnol. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**